# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, J A Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeffrey M Evans, Carwyn Jones, H E Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2016 fel rhai cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 TYNNU'R SWYDD ODDI AR Y SEFYDLIAD A'R EFFEITHIAU CYSYLLTIEDIG**

Cafwyd adroddiad diweddaru gan y Prif Weithredwr ar yr ymarfer a ddilynwyd i wahodd unrhyw 'fynegiant o ddiddordeb' gan y Penaethiaid Gwasanaeth cyfredol i gymryd drosodd rôl y swydd fel yr adroddwyd i gyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Penodi. Rhoddodd adroddiad llafar manwl ar ganlyniad trafodaethau o'r fath i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Penodi'r Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol i gymryd cyfrifoldeb ychwanegol am rôl y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar y telerau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod;**
- **Adolygu'r trefniadau o fewn 12 mis ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Penodi.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**